



## Atodiad 1 – Argymhellion – Cynnydd hyd yn hyn (Diweddariad Rhagfyr 2016)

### Allwedd Tabl 1

TABL CYNNYDD	
--------------	--

13	Argymhelliad wedi'i gwblhau
10	Argymhelliad yn mynd rhagddo
1	Hwyr/Wedi'i ohirio

Arweinydd Cyfarwyddiaeth/Cenedlaethol yw Cyfoeth Naturiol Cymru

Acronymau:

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CBSC – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

NMWTRA – Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

NWC-REPS – Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

HGC – Heddlu Gogledd Cymru

NWRF – Fforwm Cydnerthedd Gogledd Cymru

FCP – Safle Rheoli ar y Rheng Flaen

CLIDC – Cynllun Llifogydd Dyffryn Conwy



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

**TUDALEN YN WAG YN FWRIADOL**



Rhif Arg.	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain y gwaith	Erbyn pryd
1a		Ymchwilio i weithdrefnau trafod galwadau a system rybuddio telemetreg i nodi problemau posibl wrth dderbyn/trafod rhybuddion am afonydd	Aros am Adolygiad Telemetreg fel rhan o Adolygiad Meysydd Busnes CNC	Cenedlaethol	Gwanwyn 2017
1b		Ymchwilio i sicrhau bod larymau telemetreg a gweithdrefnau wedi alinio	Adolygiad yn mynd rhagddo	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
2a		Adolygu lefelau trothwy Rhybuddion 'Llifogydd – Byddwch yn Barod', Rhybuddion Llifogydd a Negeseuon Gweithredol ym mhob un o'r pedair ardal rhybudd llifogydd	Mae pob trothwy wedi cael ei adolygu a bydd gwaith yn dechrau yn ystod gaeaf 2017, oherwydd yr oediad yn y System Rhybudd Llifogydd i Gymru newydd.	Cyfarwyddiaeth	Gaeaf 2017
2b		Symleiddio Rhybuddion 'Llifogydd – Byddwch yn Barod', e.e. seiliedig ar sbardun/awtomataidd	Papur opsiynau wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo i'w roi ar waith yn genedlaethol. Mae'r papur yn rhan o Adolygiad Meysydd Busnes CNC.	Cyfarwyddiaeth/Cenedlaethol	Haf 2017
3		Adolygu'r gofyniad am bwmp yng Nghartref y Borth gyda CBSC a NMWTRA	Adolygydd y pwmp; CNC i'w gyflenwi.	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
4		Adolygu mesurydd Bont Fawr ac ystyried gosod mesurydd eilaidd.	Prif fesurydd yn gweithio'n foddhaol, bron a chwblhau'r gwaith o osod y mesurydd eilaidd.	Cyfarwyddiaeth	Gwanwyn 2017
5		Adolygu proffil gwely'r afon i fyny'r afon o Bont Fawr	Cyfrannu at adolygiad model Dyffryn Conwy	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
6		Adolygu ymateb gweithredol – mesurau tymor byr i'w rhoi ar waith tra bydd yr ymchwiliad yn parhau	Swyddogion ar ddyletswydd i'w orffen erbyn mis Hydref	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
7		Adolygu cydnherthedd amserlenni dyletswydd	<i>Gofynnwyd am esboniad pellach o'r cwmpas.</i> Mae dau berson yn hytrach nag un ar bob amserlen dros gyfnod Nadolig 2016. Bydd dull seiliedig ar risg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gŵyl gyhoeddus a gweithredir yn ôl yr angen.	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd



Rhif Arg.	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain y gwaith	Erbyn pryd
8		Ymchwilio i'r defnydd o wardeiniaid llifogydd i ddarparu adborth ar amodau safle i'r ystafell ddigwyddiadau, cefnogi CNC.	Nid yw o fewn swyddogaethau a chyfrifoldeb presennol wardeiniaid llifogydd. I'w godi ar lefel genedlaethol. Cynnwys ar yr agenda ar gyfer yr Is-grŵp Rheoli Digwyddiadau Llifogydd, a gaiff ei drefnu yn y flwyddyn newydd. I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad o grwpiau gwirfoddol o fewn CNC.	Cyfarwyddiaeth/Cenedlaethol	I'w gadarnhau
9		Adolygu'r weithdrefn a rhestrau gwirio ar gyfer gosod amddiffynfa ddatodadwy Teras Conwy.	Adolygwyd a dim newid	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
10		Adolygu perfformiad model darogan llifogydd CNC, gan gynnwys ansawdd data mewnbwn darogan glawiad y Swyddfa Dywydd.	Mae graddnodiad Model Conwy wedi cael ei wirio mewn perthynas â 18 digwyddiad yn 2015, 11 ohonynt pan gafodd Rhybuddion Llifogydd eu cyhoeddi. Y canlyniad yw bod y model yn bell o fewn ei ffiniau perfformiad. Mae'r problemau perfformiad yn ymwneud â newidiadau mewn daroganau glawiad a gafodd eu bwydo i'r model cyn/yn ystod digwyddiadau. Ar hyn o bryd, mae CNC yn rhoi prawf ar gynnyrch glawiad cyfunol newydd y gaeaf hwn, a all brofi i fod yn llawer mwy dibynadwy a sefydlog, i'w ddefnyddio gyda modelau darogan glawiad CNC yn y dyfodol.	Cyfarwyddiaeth/Cenedlaethol	Gaeaf 2016-17



Rhif Arg.	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain y gwaith	Erbyn pryd
11		Mae angen hyfforddiant/ymarferion swyddogion ar ddyletswydd – i gynnwys partneriaid proffesiynol. Mae angen ymgyswddo â'r ddwy weithdrefn gyfundrefnol.	Bydd ymarfer aml-asiantaeth yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn/haf 2017. Mae holl swyddogion dyletswydd CNC wedi cael hyfforddiant diweddarau ar yr holl weithdrefnau mewn perthynas â Dyffryn Conwy	Cyfarwyddiaeth	Gwanwyn/ Haf 2017
12		Ymchwilio'r posibilrwydd o ddarparu Amddiffyn ar Lefel Eiddo i eiddo yn Nheras Conwy fel y defnyddir gan eiddo rhif 1.	Mae CBSC wedi cadarnhau bod Amddiffyn ar Lefel Eiddo wedi ei gyflenwi i 2 – 6 Teras Conwy (mae rhif 1 yn ei ddefnyddio eisoes).	Cyfarwyddiaeth/ CBSC	Cwblhawyd
13		Ymchwilio i osod teledu cylch cyfyng ar safle yn Llanrwst i wella dealltwriaeth o amodau ar y safle.	Mae cyfathrebu'n parhau rhwng CNC/CBSC a NMWTRA	Cyfarwyddiaeth	Gwanwyn 2017
14		Adolygu sianelau cyfathrebu rhwng CNC a CBSC	Derbyniwyd manylion cyswllt y swyddog ar ddyletswydd gan CBSC	Cyfarwyddiaeth/CBSC	Cwblhawyd
15		Adolygu'r trefniant ar gyfer cau'r ffyrdd ar y cyd â CBSC a NMWTRA.	<i>Cyfarfod i'w drefnu gyda'r partion perthnasol</i> – Cyfarfod cyntaf wedi'i gynnal a'r ail gyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn newydd.	Cyfarwyddiaeth/CBSC / NMWTRA/ HGC	Gaeaf 2016/17
16		Ymchwilio opsiynau i CBSC osod amddiffynfeydd datodadwy yn Nheras Conwy	<i>Cyfarfod wedi'i gynnal</i> – nid oes gan CBSC yr adnoddau i osod yr amddiffynfeydd. Ni ellir gwarantu eu cymorth gan ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y risg mwyaf ac felly nid yw'n ateb cydnerth i'r broblem.	Cyfarwyddiaeth/CBSC	Cwblhawyd
17		Ymchwilio opsiynau i NMWTRA osod amddiffynfeydd datodadwy ar yr A470	<i>Cyfarfod i'w gynnal gyda NMWTRA</i> – nid oes gan NMWTRA yr adnoddau i osod yr amddiffynfeydd. Isgontractwyr NMWTRA yw CBSC. Problem cydnerthedd fel uchod.	Cyfarwyddiaeth/ NMWTRA	Cwblhawyd



Rhif Arg.	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain y gwaith	Erbyn pryd
18		Ymchwilio i ddatblygiad cynllun llifogydd cymunedol lle mae CNC yn trosglwyddo rhywfaint o gyfrifoldebau ymateb i lifogydd i'r gymuned	Byddai'n rhaid ystyried hyn a'i gytuno ar lefel genedlaethol gan nad yw'n rhan o swyddogaethau a chyfrifoldebau warden llifogydd ar hyn o bryd. I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad o grwpiau gwirfoddol o fewn CNC.	Cyfarwyddiaeth/Cenedlaethol	I'w gadarnhau
19		Adolygu'r Telegyfathrebiadau Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd	Gwella ac ymgorffori o fewn gweithdrefnau swyddogion ar ddyletswydd	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
20		Adolygu'r cynlluniau llifogydd amrywiol (e.e. Cynllun Llifogydd Dyffryn Conwy/Cynllun Llifogydd Safle Rheoli Rheng Flaen Gogledd Cymru/Cynllun Llifogydd Aml-asiantaeth)	<i>Cynllun Llifogydd Dyffryn Conwy – Eiddo i NWC-REPS</i> <i>Cynllun Llifogydd Aml-asiantaeth – Eiddo i Fforwm Cydnerthedd Lleol Gogledd Cymru</i> <i>Cynllun Llifogydd Safle Rheoli Rheng Flaen – Eiddo i Fforwm Cydnerthedd Lleol Gogledd Cymru</i> Adolygiad wedi'i gynnal, fersiwn newydd o CLIDC i gael ei rhyddhau yn ystod gwanwyn 2017 Fersiwn newydd o Gynllun Llifogydd Aml-asiantaeth i'w rhyddhau ym mis Mawrth 2017 Cynllun Llifogydd Safle Rheoli Rheng Flaen i gael ei rannu, un rhan i gael ei gynnwys yng Nghynllun Digwyddiad Mawr Fforwm Cydnerthedd Gogledd Cymru a'r rhan arall i'w chynnwys yn y Cynllun Llifogydd Aml-asiantaeth.	NWC-REPS  CNC  HGC	Cwblhawyd



Rhif Arg.	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain y gwaith	Erbyn pryd
21		Adolygu sefydlu'r Safle Rheoli Rheng Flaen (Efydd) yng Nglasdir	Adolygiad wedi'i gynnal, dim angen newidiadau	Cyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
22		Cyngor Tref Llanrwst i arwain ar gynhyrchu Cynllun Llifogydd Cymunedol a recriwtio wardeiniaid llifogydd.	Oherwydd y diffyg gwirfoddolwyr yn y gymuned, bydd cyngor y dref yn anfon llythyr at yr holl eiddo sydd mewn perygl yn Llanrwst i ofyn am wirfoddolwyr i weithredu fel wardeiniaid llifogydd. Ni ellir cwblhau Cynllun Llifogydd Cymunedol heb wardeiniaid.	Cyfarwyddiaeth	Gaeaf 2016/17